Annwyl Mark Drakeford a Julie James

Ymateb i Ddrafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

'Rwyf yn gwrthwynebu'n gryf y rhan o Bolisi 22 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni sy'n cefnogi ynni niwclear.

Erbyn hyn dylai pawb sy'n poeni am yr amgylchedd a dyfodol ein daear sylweddoli fod ynni niwclear yn amherthnasol i'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd, gan fod angen dadgarboneiddio yn llawer iawn cynt nag y byddai atomfeydd yn cynhyrchu ynni. Ar ben hynny, dylech fod yn ymwybodol, ac yn cefnogi, y rhesymau eraill dros wrthwynebu ynni niwclear. Dyma rai:

1. Y perygl i bobl drwy gael tomen sbwriel niwclear ar y safle am dros ganrif.
2. Y methiant i ymdrin yn foddhaol efo'r gwastraff unrhyw le yn y byd.
3. Y gost aruthrol i'r trethdalwr a chwsmeriaid am drydan.
4. Y distryw i'r amgylchedd lleol drwy adeiladu ar dir glas.
5. Y distryw i'r amgylchedd a phobl mewn gwledydd lle y cloddir iwraniwm.
6. Y ffuglen fod ynni niwclear yn garbon isel.
7. Y dechnoleg sydd heb ei brofi a argymhellir ar gyfer adweithyddion bychain.
8. Yr ansicrwydd am faint o swyddi fyddai yna i bobl leol.
9. Y gwersi nad ydych wedi eu dysgu yn dilyn atal prosiect Wylfa – buddsoddi adnoddau cyhoeddus prin; torri addewidion am gyflogaeth i bobl ifanc; ffolineb dibynnu ar un gyflogwr mawr cyfalafol; diffyg cynllun economaidd wrth gefn.
10. Y problemau cymdeithasol sy wedi datblygu yn Hinkley – e.e. hunanladdiad gweithwyr a thwf mewn ecsploetio merched fel gweithwyr rhyw.
11. Y cyswllt efo arfau niwclear sy'n cael ei gydnabod gan gwmni Rolls-Royce sy'n awyddus i adeiladu atomfa yn Nhrawsfynydd.
12. Y problemau anferthol y bydd yn rhaid i genedlaethau'r dyfodol eu wynebu.
13. Y diffyg cyllid cyhoeddus i ynni adnewyddadwy os y defnyddir y cyllid i gefnogi niwclear.

Mae'r rhesymau uchod i gyd yn mynd yn hollol groes i fwriad eich deddfwriaeth glodwiw chi eich hunan, sef Deddf Llesiant Cymru'r Dyfodol (Cymru) 2015. Amhosibl yw dirnad sut mae cefnogi mwy o'r gwastraff peryclaf a ddyfeisiwyd gan y ddynoliaeth o les i Gymru'r dyfodol, ac yn sicr mae'n mynd yn groes i'r egwyddor o Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn gywir [redacted]

(Enw a chyfeiriad) CASI M JONES

[redacted]